COPIEUENCTID CYMRU

"Cenhedloedd Bychain, Lleisiau Mawrion"

# Proffil ein Siaradwyr

## Darllenwch ymlaen i ddysgu am ein siaradwyr cyffrous, ysbrydoledig

Eco-Sgolion

Eco-Schools

Size of Wales

Maint Cymru

# Teófilo Kukush Pati



Teófilo Kukush Pati yw arweinydd (Pamuk) Cenedl y Wampís, grŵp o 85 ogymunedau brodorol yn yr Amazon gogleddol ym Mheriw. Mae'n dod o gymuned Shinguito y Wampís, sydd wedi'i leoli ger afon Morona/Kankaim. Mae Teófilo wedi treulio mwy nag 20 mlynedd yn amddiffyn tir y Wampís rhag torwyr coed anghyfreithlon, mwyngloddwyr aur, a chwmnïau olew sydd eisiau cymryd ei adnoddau naturiol.

Cyn dod yn arweinydd yn 2021, helpodd Teófilo ei gymuned mewn sawl ffordd arall.Roedd yn Is-lywydd sefydliad lleol ac yn ddiweddarach, bu'n gweithio i ddiogelu'r amgylchedd trwy sefydlu prosiect i reoli pysgota a gwarchod llynnoedd yn eu tiriogaeth. Mae Teófilo yn parhau i arwain ymdrechion i amddiffyn tir a diwylliant. Cenedl y Wampís.

# Tsanim Evaristo Wajai Asamat



Mae Tsanim Evaristo Wajai Asamat yn arweinydd ifanc o Genedl y Wampís, sy'n byw yng nghymuned Puerto Galilea. Astudiodd y gyfraith yn Universidad Nacional Mayor de San Marcos, lle dysgodd am gyfiawnder a sut i helpu pobl. Ar ôl graddio,bu'n gweithio yn Uchel Lys Callao.

Ers 2023, mae Tsanim wedi bod yn helpu Cenedl y Wampís, trwy roi cyngor cyfreithiol a chynnal gweithdai sy'n dysgu am hawliau Pobl Frodorol a chydraddoldeb rhywedd. Ef hefyd yw Llywydd y Gwarchodlu Cymunedol yn ei dref enedigol, lle mae'n helpu i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni, yn unol â thraddodiadau'r Wampís. Yn ddiweddar, daeth yn Gyfarwyddwr Cyfiawnder Cenedl y Wampís, oherwydd ei ymroddiad i wella eu system gyfiawnder.



# Rhun ap Iorwerth

Mae Rhun ap Iorwerth yn arweinydd Plaid Cymru ac yn Aelod o'r Senedd dros Ynys Môn. Cafodd ei ethol i'r Senedd am y tro cyntaf yn 2013, ac mae'n gweithio i wneud bywyd yn well i bobl ar yr ynys ac ar draws Cymru. Yn ddiweddarach, astudiodd Wleidyddiaeth a Chymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Rhun yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg, ac mae'n falch o'i dreftadaeth Gymreig.

Cyn dod yn wleidydd, bu Rhun yn gweithio fel newyddiadurwr a chyflwynydd teledu i'r BBC, yn adrodd ar straeon newyddion mawr. Bu'n gweithio yn San Steffan am gyfnod, cyn dod yn ôl i Gymru i weithio ar ddigwyddiadau pwysig, fel pleidlais datganoli Cymru ym 1997. Ar ôl bron i 20 mlynedd yn gweithio yn y byd newyddiaduraeth, penderfynodd gamu mewn i fyd gwleidyddiaeth.

Ers ymuno â Plaid Cymru, mae Rhun wedi gweithio ar sawl pwnc, gan gynnwys iechyd, trafnidiaeth, a'r economi. Mae wedi gwasanaethu mewn rolau pwysig, fel Gweinidog Iechyd yr Wrthblaid a Dirprwy Arweinydd Plaid Cymru yn y Senedd.
Mae Rhun yn adnabyddus hefyd am annog pobl ifanc i siarad Cymraeg a chymryd balchder yn eu cymunedau lleol. Yn ei amser hamdden, mae'n mwynhau chwarae pêl-droed a threulio amser gyda'i deulu ar Ynys Môn.

# Dr Matt Swarbrick- Fferm Henbant



Mae Matt Swarbrick yn ffermwr o Henbant, Gogledd Cymru. Mae'n rhedeg y fferm, ac yn canolbwyntio ar arferion ffermio cynaliadwy ac ecogyfeillgar. Mae Matt yn angerddol am ofalu am yr amgylchedd wrth dyfu bwyd a magu anifeiliaid, ac mae'n gweithio'n galed i sicrhau bod y ffordd y mae'n ffermio yn dda i natur a phobl.

Yn Henbant, mae Matt yn ymarfer ffermio adfywiol, sy'n golygu ei fod yn defnyddio technegau sy'n helpu'r pridd i gadw'n iach, gwella bioamrywiaeth, a lleihau niwed i'r blaned. Mae Matt yn ymroddedig i ddysgu pobl ynghylch pam ei bod yn bwysig gofalu am y tir, ac o ble mae eu bwyd yn dod.

Cyn dod yn ffermwr, bu Matt Swarbrick yn gweithio fel ecolegydd (rhywun sy’n astudio'r amgylchedd) ac fel gwneuthurwr ffilmiau. Roedd eisiau rhannu ei gariad at bŵer natur, a bu hyd yn oed yn gweithio ar gyfresi BBC fel Planet Earth a Frozen Planet.



## Munachi



Mae Munachi Nneji yn fyfyriwr 17 oed o Fangor, sy'n angerddol am ddiogelu'r amgylchedd, ac sy’n gobeithio dod yn beiriannydd cemegol i helpu i ddatrys heriau amgylcheddol.

Mae Munachi yn gwirfoddoli gyda Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru (NWAS), lle mae hi’n cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae hi wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd, a dangos sut y gall pobl ifanc wneud gwahaniaeth mawr o ran diogelu’r blaned.

## Dayosimilola

Mae Dayo yn fyfyriwr yn Ysgol Friars ym Mangor, sy'n angerddol am ddiogelu'r amgylchedd. Mae wedi bod yn cymryd rhan mewn glanhau traethau ac mewn gorymdeithiau ar weithredu ar yr hinsawdd ac yn 2023, siaradodd mewn digwyddiad COP am effaith newid hinsawdd ar y dyfodol. Yn 2024, aeth Dayo i'r Uwchgynhadledd Ieuenctid Hinsawdd yng Nghaerdydd, lle rhannodd pobl ifanc syniadau ar ddiogelu'r blaned.



Mae Dayo yn credu bod lleisiau pobl ifanc yn allweddol er mwyn ceisio brwydro yn erbyn newid hinsawdd, ac mae’n gobeithio ysbrydoli eraill yn YouthCOP Cymru: "Dim ots pa mor fach, gall y camau rydym yn eu cymryd wneud gwahaniaeth mawr."